



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Eithrio'r Rhai sy'n Gadael Gofal Rhag Talu'r
Dreth Gyngor

Chwefror 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafodd Llywodraeth Cymru i'r ddogfen ymgynghori *Eithrio'r Rhai sy'n Gadael Gofal Rhag Talu'r Dreth Gyngor*.

Cynulleidfa

Rhai sy'n gadael gofal, sefydliadau trydydd sector, awdurdodau lleol, talwyr y dreth gyngor

Gwybodaeth bellach

Cangen Polisi'r Dreth Gyngor

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

e-bost: LGF1Consultations@gov.wales

Copiâu Ychwanegol

Mae'r ddogfen hon i'w chael ar wefan Llywodraeth Cymru yn:

<https://beta.llyw.cymru/eithriadau-treth-cyngor-ar-gyfer-pobl-syn-gadael-gofal>

Trosolwg o'r Ymatebion

Crynodeb o'r Ymatebion

Bwriedir i'r ddogfen hon fod yn grynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law. Amlygu'r themâu allweddol a wna yn hytrach na chofnodi pob pwynt a godwyd gan yr ymatebwyr.

Daeth cyfanswm o chwech deg naw o ymatebion i law. Ni ymatebodd pob ymatebydd i bob cwestiwn.

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru roi cymorth ychwanegol i rai o'r bobl sy'n gadael gofal drwy eu heithrio rhag talu'r dreth gyngor?

YDW / NAC YDW

Nodwch unrhyw sylwadau

- Cafwyd 67 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.
- Cytunai 91% o'r ymatebwyr â'r cynnig i eithrio rhai sy'n gadael gofal rhag talu'r dreth gyngor.
- Anghytunai 9% o'r ymatebwyr â'r cynnig.

Cytuno

- O blith y rheini a gytunai â'r cynnig, y thema fwyaf cyffredin oedd y ffaith bod pobl sy'n gadael gofal yn llawer mwy bregus oherwydd eu hamgylchiadau megis addysg dameidiog; pryderon iechyd meddwl a strategaethau ymdopi amhriodol; y pontio anodd i fyd oedolion a byw'n annibynnol; a'u hanhawster yn sicrhau cyflogaeth ac incwm sefydlog.
- Roedd yr angen i roi cefnogaeth ychwanegol i rai sy'n gadael gofal yn amlwg yn yr ymatebion, yn enwedig yn absenoldeb teulu i roi cefnogaeth emosiynol neu ymarferol. Dywedwyd bod mathau eraill o gefnogaeth yn ofynnol i gynorthwyo rhai sy'n gadael gofal, gan gynnwys tai mwy fforddiadwy a sefydlog a chefnogaeth un-wrth-un sy'n cynnwys cynghorwyr personol. Tynnodd llawer o'r ymatebion sylw at y ddyletswydd bwysig sydd gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol i rai sy'n gadael gofal. Dywedodd un y byddai'r manteision a geid o'u heithrio yn fwy nag unrhyw gost.
- Amlygodd yr ymatebion hefyd y diffyg sgiliau trin arian a'r diffyg addysg ymysg rhai sy'n gadael gofal, eu hanhawster i ddelio â biliau'r cartref a bancio am y tro cyntaf, a'r arian prin sy'n aml ar gael i rai sy'n gadael gofal.
- Tynnodd nifer o ymatebion sylw at y gefnogaeth a oedd ar gael drwy gynlluniau dewisol a'r manteision a geir o ddull gweithredu cenedlaethol i eithrio rhai sy'n gadael gofal. Dywedodd un ymatebydd y gall rhai sy'n gadael gofal fynd drwy brosesau hirfaith am benderfyniadau am gefnogaeth tra bo dadleuon eraill dros roi gostyngiadau a disgowntiau yn cael eu harchwilio.

- Tynnodd un ymatebydd sylw at y datgymhelliad i ofalwyr maeth sengl sy'n colli eu disgownt treth gyngor i oedolion sengl pan fo'r unigolyn yn troi'n ddeunaw oed ac yn cael Lleoliad Pan Fyddda i'n Barod.
- Awgrymodd un ymatebydd y dylai pob unigolyn sy'n ennill llai na £14,000 y flwyddyn gael ei eithrio rhag talu'r dreth gyngor.
- Cynhwysodd un ymatebydd gafeat yn ei ymateb drwy ddweud y dylid gwneud prawf modd ar gyfer unrhyw eithriad.

Anghytuno

- Gwnaeth tri ymatebydd sylw ar annhegwch rhoi cefnogaeth i rai sy'n gadael gofal, ond nid i ofalwyr a phobl ifanc eraill.
- Dywedodd un ymatebydd fod digon o gefnogaeth eisoes ar gael i rai sy'n methu â thalu.
- Cytunai un ymatebydd ag egwyddor yr eithriad ond awgrymodd y dylid ei ystyried fesul achos.

Cwestiwn 2: Ni all person fod yn atebol am y dreth gyngor nes iddo gyrraedd deunaw oed. Ydych chi'n cytuno â'r oedran hwn?

YDW / NAC YDW

Nodwch unrhyw sylwadau

- Cafwyd 66 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.
- Cytunai 83% y dylai'r eithriad fod yn weithredol o'r oedran hwn.
- Anghytunai 17%.

Cytuno

- Cafwyd tri deg un o sylwadau ychwanegol gan ymatebwyr a oedd yn cytuno y dylai'r eithriad fod yn weithredol o ddeunaw oed ymlaen.
- Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y dylai fod yn weithredol o'r oedran pan fydd rhai sy'n gadael gofal yn dod yn atebol am y dreth gyngor.
- Tynnodd un ymatebydd sylw at yr angen i 'dimau gadael gofal' awdurdodau lleol gysylltu â'u timau referniw a budd-daliadau i sicrhau bod rhai sy'n gadael gofal sy'n troi'n ddeunaw yn ymwybodol o'r cymorth hwn.

Anghytuno

- Cafwyd wyth o sylwadau ychwanegol gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno y dylai'r eithriad fod yn weithredol o ddeunaw oed ymlaen.

- Awgrymodd pedwar ymatebydd mai pump ar hugain ddylai'r oedran fod. Er nad yw eu bwriad yn glir, mae sylwadau eraill yn awgrymu y gallai eu hatebion gyfeirio at derfyn oedran uwch yr eithriad.
- Cadarnhaodd un ymatebydd na ddylid bod eithriad o gwbl.
- Dywedodd un ymatebydd os yw pobl yn cael pleidleisio, y dylent hefyd orfod talu'r dreth gyngor.
- Awgrymodd dau ymatebydd na ddylid talu'r dreth gyngor nes bod person ifanc wedi gadael addysg amser llawn, neu nes ei fod yn ennill dros drothwy penodol.

Cwestiwn 3: Mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio'u pwerau disgresiwn i eithrio'r rhai sy'n gadael gofal rhag talu'r dreth gyngor hyd nes eu pen-blwydd yn bump ar hugain oed. Ydych chi'n cytuno y dylai'r eithriad arfaethedig ddod i ben ar ben-blwydd y sawl sy'n gadael gofal yn bump ar hugain oed?

YDW / NAC YDW

Nodwch unrhyw sylwadau

- Cafwyd 66 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.
- Cytunai 80% y dylai'r eithriad fod yn weithredol nes bo'r sawl yn 25 oed.
- Anghytunai 20%.

Cytuno

- Cafwyd tri deg un o sylwadau ychwanegol gan ymatebwyr a oedd yn cytuno y dylai'r eithriad ddod i ben ar ben-blwydd y sawl sy'n gadael gofal yn bump ar hugain oed.
- Un o'r themâu mwyaf cyffredin oedd bod y terfyn oedran uwch o bump ar hugain yn rhoi digon o amser i rai sy'n gadael gofal bontio i fyd oedolion a bod mewn gwell sefyllfa i ddelio â'u harian personol.
- Yn yr un modd, awgrymodd ymatebwyr fod yr oedran uwch o bump ar hugain yn gydnaws â'r ddeddfwriaeth ac arferion eraill i helpu rhai sy'n gadael gofal.
- Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid ystyried ymestyn rhyddhad yn ôl disgresiwn neu gymorth o fath arall y tu hwnt i ben-blwydd y sawl sy'n gadael gofal yn bump ar hugain oed. Awgrymodd un ymatebydd y dylid newid y cod ymarfer i adlewyrchu hyn.
- Dywedodd un awdurdod lleol ei fod eisoes yn eithrio rhai sy'n gadael gofal nes iddynt gyrraedd eu pen-blwydd yn chwech ar hugain oed.
- Awgrymodd un awdurdod lleol y dylid rhoi ystyriaeth i gyflwyno cyfrifoldeb graddol i dalu treth gyngor.

Anghytuno

- Cafwyd tri ar ddeg o sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno y dylai'r eithriad ddod i ben ar ben-blwydd y sawl sy'n gadael gofal yn bump ar hugain oed.
- Awgrymodd saith o ymatebwyr na fydd rhai sy'n gadael gofal o bosibl yn gwbl annibynnol erbyn pan fyddant yn bump ar hugain oed gan gynnig ddull ehangach o weithredu gan gynnwys codi'r terfynau oedran uwch (chwech ar hugain a tri deg), cyfradd is i rai sydd wedi cyrraedd pump ar hugain oed, a chefnogaeth bellach yn ôl disgresiwn.
- Roedd dau ymatebydd yn erbyn egwyddor yr eithriad.
- Awgrymodd tri ymatebydd y dylai amgylchiadau rhai sy'n gadael gofal gael eu hasesu'n unigol.
- Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r eithriad ddod i ben pan mae'r sawl sy'n gadael gofal yn gadael addysg amser llawn.

Cwestiwn 4: Wrth 'rhai/sawl/pobl sy'n gadael gofal' rydym yn cyfeirio at bobl ifanc sydd wedi derbyn gofal am gyfnod o 13 wythnos o leiaf ers iddynt gyrraedd pedwar ar ddeg oed, ac a oedd mewn gofal ar eu pen-blwydd yn un ar bymtheg oed. Dyma ddiffiniad a ddefnyddir gyda ffurfiau eraill o gymorth i'r rhai sy'n gadael gofal. Ydych chi'n derbyn bod hwn yn ddiffiniad addas?

YDW / NAC YDW

Nodwch unrhyw sylwadau

- Cafwyd 65 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.
- Cytunai 77% â'r diffiniad a ddarperir.
- Anghytunai 23%.

Cytuno

- Cafwyd chwech sylw o sylwedd gan ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r diffiniad arfaethedig.
- Dywedodd pedwar ymatebydd fod y diffiniad a ddarperir yn gydnaws â'r Chwe Chategori ar gyfer Rhai sy'n Gadael Gofal fel y'u diffinnir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Roedd un ymatebydd yn bryderus na fyddai pawb sy'n gadael gofal o bosibl yn gymwys am yr eithriad dan y diffiniad hwn a gofynnodd i awdurdodau lleol barhau i ddefnyddio'u pwerau disgresiwn i eithrio'r unigolion hynny.

Anghytuno

- Cafwyd tri ar ddeg o sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r diffiniad arfaethedig.

- Awgrymodd tri ymatebydd y dylai pobl ifanc fod mewn gofal am o leiaf flwyddyn i fod yn gymwys i gael eu heithrio.
- Awgrymodd dau ymatebydd ddiffiniad ehangach yn seiliedig ar a yw'r person ifanc mewn gofal naill ai ar ei ben-blwydd yn un ar bymtheg neu'n ddeunaw oed.
- Awgrymodd dau ymatebydd y dylai unrhyw berson ifanc sydd wedi bod mewn gofal fod yn gymwys i gael ei eithrio.
- Awgrymodd un ymatebydd y dylai plant mabwysiedig hefyd gael eu cynnwys yn y diffiniad.
- Awgrymodd un ymatebydd y dylid ystyried eithrio plant sydd dan ofal eu teulu ehangach neu ffrindiau.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru eithrio'r rhai sy'n gadael gofal ac sy'n byw yng Nghymru ond a gafodd eu gofal mewn rhannau eraill o'r DU?

YDW / NAC YDW

Nodwch unrhyw sylwadau

- Cafwyd 65 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.
- Cytunai 85% y dylai'r eithriad fod yn weithredol i rai sy'n gadael gofal ac sy'n byw yng Nghymru ond a gafodd eu gofal mewn rhannau eraill o'r DU
- Anghytunai 15%.

Cytuno

- Cafwyd chwech ar hugain o sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r diffiniad arfaethedig.
- Cyfeiriai'r ymateb mwyaf cyffredin at yr angen i'r eithriad fod yn bolisi cenedlaethol, nid yn un lleol. Dywedodd nifer o'r sylwadau hyn y dylai'r drefn yn y DU ac yng Nghymru fod yn gwbl gydnaws. Roedd un o'r ymatebwyr hyn yn dal yn erbyn egwyddor yr eithriad rhag talu'r dreth.
- Dywedodd pump ymatebydd y dylai'r eithriad ystyried yr ardal lle mae'r sawl sy'n gadael gofal yn byw nid o lle mae'n hanu.
- Dywedodd pump ymatebydd na fydd y sawl sy'n gadael gofal o bosibl wedi cael dewis lle'r oedd yn byw ac na ddylid gwahaniaethu yn eu herbyn ar y sail honno.
- Cytunai un ymatebydd â'r cynnig ar y sail y byddai rhai sy'n gadael gofal o Gymru sy'n byw mewn awdurdod yn Lloegr yn elwa o eithriad, er bod hyn yn rhagdybio y caiff eithriad tebyg ei gyflwyno yn Lloegr.

- Dywedodd un ymatebydd y dylid bod elfen o gyfrifoldeb gan yr awdurdod lleol cartref i gynnig cefnogaeth barhaus.

Anghytuno

- Daeth chwech o sylwadau o sylwedd i law gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno.
- Mae pedwar o'r rhain yn rhoi sylwadau ychwanegol sy'n awgrymu bod yr ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad, gan roi rhesymau gan gynnwys nad oes gan blant yn aml ddewis lle cânt eu lleoli ac y bydd rhai sy'n gadael gofal a leolwyd y tu allan i'r sir/y wlad ac sy'n dychwelyd i fyw'n agosach at eu teulu genedigol pan adawant ofal yn fregus ac angen mwy o gefnogaeth.
- Dywedodd un ymatebydd fod yn rhaid i awdurdodau yn Lloegr dalu am rai sy'n gadael gofal a oedd dan ofal mewn rhannau eraill o'r DU fel na wahaniaethir yn eu herbyn yn ariannol os dewisant fyw yng Nghymru.
- Awgrymodd un awdurdod lleol bod gan awdurdodau lleol y tu allan i Gymru ddyletswydd o hyd i bobl ifanc sydd wedi gadael eu gofal ac sydd bellach yn byw yng Nghymru. Maent hefyd yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried cefnogi awdurdodau lleol yng Nghymru i gwrdd â chostau'r dreth gyngor ar gyfer pobl sy'n gadael gofal sy'n byw y tu allan i Gymru.

Cwestiwn 6: A ddylai awdurdodau lleol fod yn gyfrifol am bennu neu chwilio am dystiolaeth o statws gadael gofal unigolyn?

DYLEN / NA DDYLEN

Nodwch unrhyw sylwadau

- Cafwyd 63 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.
- Cytunai 94% y dylai awdurdodau lleol fod yn gyfrifol am bennu neu chwilio am dystiolaeth o statws gadael gofal unigolyn
- Anghytunai 6%.

Cytuno

- Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr y dylai awdurdodau lleol fod yn rhagweithiol a bod yn gyfrifol am chwilio am dystiolaeth. Awgrymodd llawer mai gwaith hawdd fyddai hyn i awdurdodau lleol oherwydd y dylai'r wybodaeth angenrheidiol fod ar gael yn hawdd iddynt.
- Rhoddodd rhai awdurdodau lleol a ymatebodd esiamplau o'r arferion presennol lle mae timau gwasanaethau cymdeithasol yn cysylltu â thimau refeniw'r awdurdod.
- Dywedodd nifer o ymatebwyr ei bod yn bwysig sicrhau bod hawliadau'n ddilys a sicrhau nad yw'r eithriad yn cael ei ddefnyddio drwy dwyll.

- Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at yr anawsterau y gallai rhai sy'n gadael gofal eu cael i ddarparu'r dystiolaeth hon eu hunain.
- Awgrymodd nifer o ymatebwyr ffyrdd i Lywodraeth Cymru allu mynnu neu gynghori timau gadael gofal awdurdodau lleol i gofnodi statws sawl sy'n gadael gofal. Ymysg y ffyrdd hyn awgrymwyd 'tystysgrif' Cymru gyfan wedi'i fformatio yn cael ei chadw ar ffeil nes bo'r person ifanc ei hangen.
- Credai un ymatebydd fod mantais arall i hyn, sef annog rhai sy'n gadael gofal i gadw mewn cysylltiad â pheirianwaith cefnogi'r cynghorydd personol.

Anghytuno

- Daeth tri sylw i law gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno.
- Awgrymodd un ymatebydd y gellid defnyddio grwpiau'r Comisiynydd Plant i gael tystiolaeth o statws sawl sy'n gadael gofal.
- Awgrymodd un ymatebydd na ddylai'r sawl sy'n gadael gofal orfod dangos tystiolaeth.
- Dywedodd un awdurdod lleol y dylid annog rhai sy'n gadael gofal i ysgwyddo cyfrifoldeb a darparu tystiolaeth (drwy gais) eu bod yn bodloni'r amodau cymhwyso.

Cwestiwn 7: Sut ydych chi'n credu y dylai awdurdodau lleol ymateb i ddyledion treth gyngor presennol sydd eisoes wedi'u cronni gan rai sy'n gadael gofal ac sy'n gymwys i gael eu heithrio?

Nodwch unrhyw sylwadau

- Cafwyd chwech deg un o ymatebion i'r cwestiwn hwn.
- Yr ymateb mwyaf cyffredin, gan dri deg o ymatebwyr, oedd y dylai unrhyw ddyledion sydd wedi cronni gan rai sy'n gadael gofal gael eu dileu.
- Yr ymateb ail fwyaf cyffredin oedd y dylai awdurdodau lleol asesu dyledion fesul achos.
- Awgrymodd nifer o ymatebion y dylai'r ddyled gael ei lleihau neu y dylid rhoi cefnogaeth ychwanegol i rai sy'n gadael gofal, ee. drwy ddefnyddio cynlluniau talu.
- Dywedodd pump ymatebydd y dylai'r ddyled gael ei chasglu fel arfer.
- Awgrymodd un ymatebydd y dylai Llywodraeth Cymru dalu'r ddyled.

Cwestiwn 8: Yn eich barn chi, sut ddylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol sicrhau bod pawb cymwys sy'n gadael gofal wedi'u pennu, a sicrhau bod y mwyafrif ohonynt yn hawlio'r eithriad?

Nodwch unrhyw sylwadau

- Tynnodd dau ddeg wyth o ymatebwyr sylw at bwysigrwydd cyfathrebu rhwng swyddogion reffeniw a'r gwasanaethau cymdeithasol ar lefel awdurdodau lleol.
- Roedd rôl y cynghorydd personol a'r timau gadael gofal yn themâu mynych mewn atebion, gyda llawer yn gwneud y sylw y dylai cynyddu ymwybyddiaeth o'r eithriad fod yn rhan o'r broses cynllunio llwybrau.
- Awgrymodd nifer o ymatebion sefydlu peirianweithiau i symleiddio neu ddileu'r angen am ymgeisio, megis sefydlu trefniadau rhannu data i sicrhau bod rhai sy'n gadael gofal yn cael eu heithrio'n awtomatig.
- Amlygodd yr ymatebion hefyd bwysigrwydd cynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun drwy ymgyrchoedd hysbysebu, diweddarau gwefannau, ffurflenni a chyhoeddiadau awdurdodau lleol, ac ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid allweddol.
- Awgrymodd un awdurdod lleol y dylid defnyddio ffurflen safonedig ar draws pob awdurdod lleol.
- Awgrymodd un ymatebydd y dylai awdurdodau lleol gyhoeddi data ar gymhwysedd a chyfraddau hawlio yn eu hardal.
- Cadarnhaodd un ymatebydd ei wrthwynebiad i'r eithriad.
- Awgrymodd un ymatebydd y dylai rhai sy'n gadael gofal fod yn gallu 'ennill yr hawl i gael eu heithrio rhag talu'r dreth' drwy fynychu'r ysgol.
- Dywedodd un ymatebydd na ddylai rhai sy'n gadael gofal gael eu trin yn wahanol i rai eraill sy'n gadael cartref.

Cwestiwn 9: Yn eich barn chi, a oes ystyriaethau ymarferol eraill y dylid mynd i'r afael â nhw mewn canllawiau?

Nodwch unrhyw sylwadau

- Cafwyd tri deg un o sylwadau o sylwedd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.
- Y thema fwyaf cyffredin oedd yr angen i gefnogaeth ychwanegol fod ar gael i rai sy'n gadael gofal gan gynnwys addysg ariannol, cefnogaeth i ddod o hyd i waith, cymorth i ymgeisio am yr eithriad, a rhyngweithio cymdeithasol. Awgrymodd un ymateb y dylai Llywodraeth Cymru lunio canllawiau a deddfwriaeth i sicrhau'r gefnogaeth hon.
- Roedd hygyrchedd yn amlwg hefyd, gydag ymatebwyr yn gofyn am ddefnyddio iaith glir, prosesau syml, gan atgoffa unigolion cymwys sy'n gadael gofal yn rheolaidd.
- Cododd nifer o ymatebion yr angen am eglurder ar amrywiol agweddau ar weinyddu'r eithriad, gan gynnwys sut dylai awdurdodau lleol ddelio ag

atebolrwydd cyd ac unigol, ystyriaethau traws-ffiniol, amseriadau er mwyn gallu gwneud newidiadau yn y feddalwedd, delio â thai amlfeddiannaeth, trefniadau rhannu data, a'r cysylltiad rhwng yr eithriad hwn ac eithriadau a disgowntiau eraill sydd ar gael.

- Amlygodd nifer yr angen i sicrhau bod timau awdurdodau lleol a sefydliadau allweddol eraill gan gynnwys DWP, y Ganolfan Byd Gwaith, asiantaethau trydydd sector, ayb yn cael gwybod am yr eithriad.
- Awgrymodd nifer o ymatebwyr ffyrdd i awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru annog pobl i hawlio, gan gynnwys ymgyrch hysbysebu cychwynnol, cynhyrchu adnoddau i bobl ifanc ac ymgynghori â rhai sy'n gadael gofal er mwyn deall sut hoffent inni fwydo'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt.
- Awgrymodd un ymatebydd y dylai rhai sy'n gadael gofal sy'n talu'r dreth gyngor yn ddiangen ar ôl 1 Ebrill 2019 gael eu had-dalu'n llawn.
- Awgrymodd un ymatebydd y dylai'r niferoedd sy'n hawlio gael eu monitro'n rheolaidd.

Cwestiwn 10: Rhowch unrhyw sylwadau eraill sydd gennych ar y cynigion.

- Cafwyd dau ddeg chwech o sylwadau o sylwedd i'r cwestiwn hwn.
- Rhoddodd saith o ymatebwyr sylwadau i gefnogi'r eithriad arfaethedig.
- Gofynnodd pump ymatebydd am eglurhad pellach ar y sail ddeddfwriaethol ar gyfer yr eithriad arfaethedig, gan gynnwys a fyddai rhai sy'n gadael gofal yn cael eu diystyru at ddibenion y dreth gyngor, effaith yr eithriad ar y disgownt i oedolyn sengl, atebolrwydd eu priod, ac atebolrwydd cyd ac unigol.
- Awgrymodd un awdurdod lleol ddull deddfwriaethol o gyflwyno'r eithriad y gellid ei weinyddu'n hawdd gan ddefnyddio'u meddalwedd cyfredol. Awgrymodd un arall y byddai angen i Lywodraeth Cymru gefnogi'r cynnig yn ariannol gan gynnwys cost newid meddalwedd.
- Dywedodd awdurdod arall y dylai Llywodraeth Cymru fod yn dryloyw na chyflwynir y cynnig ar ddim cost i awdurdodau lleol, gan gyfeirio at leihau incwm llywodraeth leol a'r gost sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau cefnogi, cyngor ac arweiniad.
- Dywedodd un ymatebydd y dylai'r eithriad fod ar gael i bobl ifanc eraill sydd dan anfantais hefyd, ac y dylai'r eithriad fod yn weithredol ar draws y DU.
- Cododd un ymatebydd bryder ynglŷn â'r diffiniad o sawl sy'n gadael gofal a ddarperir yn yr ymgynghoriad.
- Dywedodd un arall fod yr ymgynghoriad yn tueddu o blaid yr eithriad.

- Cododd dau ymatebydd gwestiynau am yr ystod oedran arfaethedig ar gyfer yr eithriad, gyda un yn awgrymu bod y terfyn oedran uwch o bump ar hugain yn fympwyol ac un arall yn dweud y dylid hefyd ystyried rhai dros yr oedran hwn.
- Amlygodd un ymateb bwysigrwydd ymgysylltu â rhai sy'n gadael gofal fel rhan o'r broses o lunio'r polisi ac i gynorthwyo â'r gwaith o baratoi'r arweiniad.
- Mynegodd un ymatebydd bryder bod posibilrwydd i awdurdodau lleol weinyddu'r eithriad mewn ffyrdd gwahanol.
- Amlygodd un ymatebydd yr angen i rai sy'n gadael gofal gael cefnogaeth ymarferol.
- Dywedodd un ymatebydd fod yr anghysondeb mewn ymarfer yn gwneud cam â rhai sy'n gadael gofal.
- Dywedodd un ymatebydd y dylai'r eithriad hefyd fod yn weithredol yng ngweddill y DU.

Camau Nesaf

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried yr ymatebion wrth benderfynu a ddylid a sut dylid llunio deddfwriaeth i gyflwyno eithriad treth gyngor newydd ar gyfer rhai sy'n gadael gofal.

Atodlen 1

Rhestr o ymatebwyr wnaeth ddewis peidio â bod yn ddienw

Enw'r ymatebydd / Sefydliad
Paul Harley
Barnardo's
Paul Stephens
Cyngor Sir Fynwy
Cyngor ar Bopeth Abertawe Castell-nedd
Port Talbot
John Killick
Jean Silvan Evans
Amanda Hurst
Undeb Llafur y GMB
John
Foster care values
Anna-Louise Edwards
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Kara Bradley
Young Foundations
Kerry Morgan
Five Rivers Child Care
Mabwysiadu Canolbarth a Gorllewin Cymru
Graham Barrow
Maureen Perkins
Cyngor Sir Fynwy
Sharon Cooke
Barbara Roberts
Cyngor Sir Powys
Mark Brerton
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Gwasanaeth Cyngori Ariannol
Cyngor Sir y Fflint
Cyngor Sir Ddinbych
Gofal Cymdeithasol Cymru
Cyngor Caerdydd
Cyngor ar Bopeth Cymru
Cyngor Bro Morgannwg
Comisiynydd Plant Cymru
Plant yng Nghymru
Cymdeithas y Plant
Voices From Care Cymru
Gwasanaethau Plant Rhondda Cynon Taf
Barnardo's Cymru
Y Rhwydwaith Maethu
Cyngor Sir Ynys Môn